| | | |
|---|---|---|
| **Cofnod o Benderfyniadau'r Grŵp Rheoli Aur – Penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng 1 Chwefror 2022 a 28 Chwefror 2022** | | |
| 271 | 01.02.22 | Gan fod Cymru ar Lefel Rhybudd sero erbyn hyn a bod y rhan fwyaf o wasanaethau wedi ailagor, cytunwyd y byddai'r Grŵp Rheoli Aur yn cyfarfod unwaith yr wythnos, ar ddydd Iau, o hyn allan. |
| 272 | 03.02.22 | Cymeradwyo yr ymagwedd a gynigiwyd gan Grŵp Rheoli Arian Addasiad Economaidd tuag at y Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Arbrofol a Masnachu yn yr Awyr Agored. |
| | | Parhau â'r trefniadau Cymorth Gweinyddol Brys ar gyfer y Cartrefi Gofal preswyl a chytunwyd mai'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal- Ymyrraeth wedi'i Thargedu a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: y Gwasanaethau Democrataidd fyddai'n cynnal adolygiadau pellach. |
| | | Cytuno mewn egwyddor â'r angen i Benaethiaid, timau arwain ysgolion a rheolwyr y gwasanaethau dderbyn hyfforddiant Lefel 1 Team Teach, gyda'r rhybudd bod yn rhaid ystyried beth yw'r opsiynau eraill i ysgolion sy'n mynychu'r hyfforddiant yn Felin-fach. |
| 273 | 10.02.22 | Cytuno â'r cynnig bod ysgolion yn dychwelyd at fframwaith penderfynu'n lleol o hanner tymor ymlaen. |
| | | Cytuno â'r cais am dri chyfarfod wyneb yn wyneb ym mhob sir i reolwyr stordai cyfarpar Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro. |
| | | Cytuno bod ystafelloedd 5, 6 a 7 yn gallu cael eu defnyddio i bobl ddod iddynt i gofrestru o 14 Mawrth 2022 ymlaen. |
| | | Cytuno i dderbyn y cynnig i dreialu Cerbyd Trydan 26 Tunnell i Gasglu Gwastraff. |
| | | Cytuno i ganiatáu i 3 Aelod o Staff fynd i ganolfan brofi yn Aberystwyth i sefyll prawf ar sgrin gyffwrdd, er mwyn iddynt ennill cymwysterau angenrheidiol. |
| | | Cytuno y gall Aelodau Staff fynd i'r un hyfforddiant codi a chario, gan lynu'n llym wrth y mesurau rheoli a gafodd eu cynnwys yn yr asesiad risg. |
| | | Cytuno y gellir gwneud y gwaith paratoi ar gyfer ailddechrau sesiynau nofio i ysgolion. |
| 274 | 17.02.22 | Cytuno ar 2 reolwr ychwanegol er mwyn cynorthwyo i gyflenwi gwasanaethau. |
| | | Cytuno i gael staff allweddol yn unig yng Nghanolfan Rheidol 18/02/2022. Bydd yr Ystafell Bost ar gau. |
| | | Cymeradwyo'r amserlennu ar gyfer Gweithdai'r Llyfrgell. |
| | | Gwrthod y cynnig i Fwrdd Rhanddeiliaid Prosiect gyfarfod wyneb yn wyneb. Pe bai angen, gellid cynnig cymorth i hwyluso cyfarfod rhithiol. |
| | | Cytuno i beidio â threfnu cyfarfod o'r Grwp Rheoli Aur yr wythnos nesaf. Gellid ymdrin â rhai eitemau drwy eithriad yn unig yn dilyn cyfarfod y Grŵp Arweiniol ddydd Mercher. |

| | | |
|---|---|---|
| 275 | 28.02.22 | Cytuno i gynghori'r cyhoedd yn gryf i barhau i ddefnyddio mygydau wyneb yn holl leoliadau'r Cyngor nas enwir yn benodol yn y ddeddfwriaeth Diogelu Iechyd. |
| | | Cytuno y byddai'r sawl sy'n gweithio yn adeiladau'r Cyngor yn dal i orfod gwisgo mygydau wyneb o leiaf hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022. |
| | | Cytuno y bydd rhai aelodau o staff yn cael eu harwain drwy broses gefnogol a fydd yn rhoi ystyriaeth i'r cyhoeddiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ddydd Gwener ac sy'n ymwneud â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer Olrhain Cysylltiadau. |